Papur y Bwrdd

27 Mawrth 2015

Teitl y Papur	**Ymgorffori ystyriaeth o risg newid yn yr hinsawdd ledled CNC**
Cyfeirnod y Papur:	**CNC B B 19.15**
Paratowyd y Papur gan:	**Clive Walmsley**

Pwrpas y Papur:	**Diweddaru a Phenderfyniad**
Argymhelliad:	Mabwysiadu'r dull seiliedig ar risg a chyfle o weithredu canllawiau addasu Llywodraeth Cymru'n gynyddol gan hwyluso'r broses o brif-ffrydio camau gweithredu ar newid yn yr hinsawdd yn holl waith CNC.
Angen Penderfyniad:	Cymeradwyo'r dull

Effaith: Noder – efallai na fydd pob pennawd yn berthnasol i'r pwnc	**Effaith ar yr Amgylchedd**: Bydd ystyried effeithiau newid yn yr hinsawdd yn dod yn gynyddol hanfodol er mwyn cyflawni ein gwaith rheoli amgylcheddol. Mae defnyddio canllawiau Llywodraeth Cymru'n darparu fframwaith a phroses i fynd i'r afael â hyn. Bydd mabwysiadu'r Dull Ecosystem yn golygu ystyried newid yn yr hinsawdd o fewn Cynlluniau Adnoddau Naturiol Integredig. **Effaith ar yr Economi**: Ni wyddom lawer sut mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar yr economi er bod digwyddiadau tywydd eithafol eisoes yn cael effaith ac mae'n anochel y bydd rhai sectorau e.e. amaethyddiaeth, coedwigaeth a thwristiaeth yn cael eu heffeithio'n sylweddol tra bod datblygu'r economi werdd yn dod â chyfleoedd. **Effaith ar y Gymuned**: Cymunedau sy'n cael eu taro gyntaf gan effeithiau newid yn

	yr hinsawdd, a bydd eu gwneud nhw'n fwy ymwybodol o risgiau a dulliau yn elfen bwysig o'n gwaith. **Effaith ar Wybodaeth**: Mae deall tystiolaeth yn well a chyfuno tystiolaeth yn well i lywio penderfyniadau ar risgiau newid yn yr hinsawdd yn rhan hanfodol o'r broses a nodwyd yn y papur. Mae gwybodaeth a chyfathrebu'r wybodaeth honno yn hanfodol er mwyn meithrin capasiti y gellir ei addasu yn CNC ac yn allanol.

Pwnc

Cyflwynwyd papur Bwrdd ar rôl CNC wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yng Nghymru ym mis Mai 2014. Cytunwyd bod angen gwneud mwy o waith i nodi dull o brif-ffrydio ystyriaeth i newid yn yr hinsawdd ledled CNC mewn ffordd oedd yn bodloni gofynion canllawiau Llywodraeth Cymru a hefyd yn sicrhau bod y risgiau i amcanion CNC yn cael eu lleihau ac yn dangos camau gweithredu i fynd i'r afael â'r mater yn allanol. Mae'r papur yn darparu diweddariad ar gynnydd ac yn nodi ein dull arfaethedig.

Crynodeb

Cynigir dull blaenoriaethu fesul cam wrth ymgorffori ystyriaeth i newid yn yr hinsawdd yn holl waith CNC yn seiliedig ar y risgiau i CNC allu cyflawni ei amcanion. Yn ystod 2015/16 bydd y dull yn cael ei dreialu mewn 5 maes gwaith.

Cefndir

Gwyddoniaeth a chyd-destun polisi

1. Roedd adolygiad o'r dystiolaeth wyddonol a gyhoeddwyd ym 5ed Adroddiad Asesu y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd yn 2013/14 yn cadarnhau'r neges bod mwy o sicrwydd bellach bod allyriadau anthropogenig yn gyfrifol am newid yn yr hinsawdd ac y gellir rhagweld yn fwy hyderus y bydd cynhesu byd-eang yn parhau i ddigwydd, gan gynyddu'r tebygolrwydd o effeithiau difrifol, pellgyrhaeddol na ellir mo'u dadwneud ar yr amgylchedd, yr economi a lles cymdeithasol ledled y byd.
2. Yng Nghymru, mae'r Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2010 yn nodi mesurau i sicrhau gostyngiadau blynyddol o 3% mewn allyriadau o fewn sectorau mewn meysydd datganoledig o 2011 ymlaen a Fframwaith Ymaddasu i ddatblygu ein sylfaen dystiolaeth a'n capasiti i brif-ffrydio'r broses o ymaddasu ym mhob sector. Yn 2012 a 2013 llwyddwyd i gyrraedd y targedau gostyngiadau mewn allyriadau blynyddol ond gyda'r polisïau cyfredol rhagwelir na fydd hi'n bosibl cyrraedd targed arall Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau Cymru gyfan 40% erbyn 2020. Mae'r Adroddiad Blynyddol a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gynnydd Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd yn 2014 wedi cadarnhau'r neges bod targedau wedi'u cyflawni hyd yn hyn ond mae angen rhagor o ddulliau cyflawni a pholisi er mwyn gallu cyflawni mwy o dargedau.
3. Mewn ymateb i dargedau heriol y dyfodol, aeth Llywodraeth Cymru ati i adnewyddu'r polisi ar newid yn yr hinsawdd a chyfrannodd CNC at y gwaith hwn ar ffurf papur briffio i Weinidogion. Ym mis Hydref 2014, roedd datganiad llafar y Gweinidog ar newid yn yr hinsawdd yn nodi pedwar maes blaenoriaeth ar gyfer gweithredu yn y dyfodol – i) dileu risg yn yr hinsawdd, ii) lleihau allyriadau, iii) gwella effeithlonrwydd ynni a iv) sbarduno ynni carbon-isel. Rhagwelir y bydd diweddariad

adnewyddu mwy cynhwysfawr a fydd yn rhoi mwy o fanylion am weithgarwch arfaethedig ar y blaenoriaethau hyn (a pholisi diwygiedig posibl) yn cael ei baratoi ddiweddarach yn 2015.

Ymgorffori newid yn yr hinsawdd yn rhaglen waith CNC

4. Un o'n negeseuon cyfathrebu allweddol yw bod 'CNC' yn cael ei ysgogi gan yr angen am newid mewn cymdeithas sy'n wynebu newid yn yr hinsawdd, llai o adnoddau a phwysau poblogaeth. Rydym yn bodoli i sicrhau bod ein hamgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal yn gynaliadwy, eu gwella'n gynaliadwy a'u defnyddio'n gynaliadwy, yn awr ac i'r dyfodol. Mae hyn yn gosod newid yn yr hinsawdd yn ganolog i'r rheswm pam mae angen i CNC fabwysiadu dull integredig newydd o weithio.
5. Mae Cynllun Corfforaethol CNC yn gwneud ymrwymiad penodol (E4) i *helpu i wneud Cymru'n gryfach i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd ac effeithiau eraill, yn ogystal â chefnogi ymdrechion byd-eang i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr*. Mae'r Cynllun Busnes yn cynnwys amcan penodol i *sicrhau bod ymaddasu i newid yn yr hinsawdd yn elfen greiddiol o'n holl feysydd gwaith i leihau risg effeithiau ar ddarpariaeth* gyda chynllun 2015/16 â tharged i *ymgorffori ystyriaeth i newid yn yr hinsawdd mewn meysydd gwaith risg uchel a dangos ein bod yn defnyddio canllawiau Llywodraeth Cymru i awdurdodau adrodd ar ymaddasu i newid yn yr hinsawdd*.
6. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi CNC fel Awdurdod Adrodd o dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008. O ganlyniad, mae gofyn i CNC ddangos ein bod ni'n ystyried y risgiau sy'n deillio o newid yn yr hinsawdd i'n gallu o gyflawni ein cylch gwaith, ac os yw'n dymuno gall Llywodraeth Cymru ofyn i ni adrodd ar y risgiau hynny a sut rydym yn eu rheoli. Hyd yn hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi dewis peidio gofyn i unrhyw sefydliad adrodd ar hyn. Serch hynny, rydym wedi cytuno i fod yn un o'r cyrff cyhoeddus cyntaf i 'brofi' canllawiau statudol Llywodraeth Cymru i baratoi ar gyfer hinsawdd sy'n newid, a gyhoeddwyd yn 2013. Rydym yn bwriadu bod yn esiampl o sefydliad da i gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru drwy ddangos sut y gellir defnyddio'r canllawiau i leihau risgiau i'n busnes sy'n gysylltiedig â hinsawdd.
7. Mewn trafodaethau diweddar gyda Llywodraeth Cymru rydym wedi cael arweiniad clir i roi mwy o le ac amlygrwydd i newid yn yr hinsawdd yn ein rhaglen waith, ac o ganlyniad rydym wedi cadarnhau pwysigrwydd newid yn yr hinsawdd yng Nghynllun Busnes 15/16. Mae CNC yn gwneud cyfraniad pwysig at gyflawni'r Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd o ran lliniaru ac ymaddasu. Yn ogystal â'r gwaith a nodwyd yn y Cynllun Busnes rydym wedi cytuno i ddarparu astudiaethau achos yn dangos sut rydym yn ymgorffori newid yn yr hinsawdd yn ein gwaith, a fydd yn helpu i ddangos sut mae'r sector cyhoeddus yn rhoi arweiniad o ran gweithredu ar newid yn yr hinsawdd.
8. Yn ogystal, mae Datganiad Ysgrifenedig diweddar y Gweinidog ar ddarpariaeth newid yn yr hinsawdd (5 Mawrth) yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i ariannu CNC i gynnal gwerthusiad o effaith carbon net CNC fel sefydliad, gan adeiladu ar waith y

System Reoli Amgylcheddol (EMS) sy'n archwilio ein hallyriadau. Byddai'r asesiad hwn yn ystyried effaith carbon net ein hystâd gyfan hefyd ac yn nodi beth fyddai'n rhaid i CNC ei wneud i fod yn sefydliad carbon net cadarnhaol.

Dull cyflwyno'r canllawiau ymaddasu statudol

9. Ein bwriad yw cyflwyno canllawiau pum rhan Llywodraeth Cymru fesul cam drwy gwblhau Rhannau 1 (Cychwyn) a 2 (Ymchwilio) yn ystod 2015/16 - dechreuwyd ar y broses hon yn 2014 gyda sesiwn Bwrdd. Byddwn hefyd yn treialu gweddill y dull, Rhannau 3, 4 a 5 (Cynllunio, Gweithredu a Monitro) o fewn nifer fechan o feysydd penodol o'r busnes. Ar ddiwedd 2015/16, byddwn yn adolygu cynnydd ac yn mireinio ein dull ar gyfer ei gyflwyno ledled gweithgareddau eraill yn 16/17 - 17/18. Mae papur y Bwrdd ar newid yn yr hinsawdd yn elfen bwysig o weithredu Rhan 1 y canllawiau sy'n gofyn am gyfraniad gan lunwyr penderfyniadau lefel uwch, yn cynnwys aelodau'r Bwrdd. Byddwn yn trefnu sesiynau gyda'r Tîm Arwain i'w cynnwys yn y broses ac i ddechrau ystyried y risgiau a nodwyd. Rydym wedi penderfynu peidio ag edrych ar yr angen i ymaddasu yn ôl gofynion canllawiau Llywodraeth Cymru yn unig ond i fynd i'r afael â rôl ein gweithgareddau o ran sicrhau gostyngiadau mewn allyriadau yn ogystal mewn un broses.
10. Cynhaliwyd asesiad cychwynnol o'r risgiau a'r cyfleoedd cysylltiedig â newid yn yr hinsawdd ledled CNC gan ddefnyddio'r 250 o weithgareddau a nodwyd fel rhan o'r gwaith pontio cyn breinio CNC. Aseswyd yr elfennau canlynol mewn modd ansoddol ar gyfer pob un o'r gweithgareddau:
    - Risg effaith – yr effaith y bydd effeithiau newid yn yr hinsawdd yn eu cael ar ein darpariaeth a chanlyniadau busnes y gweithgaredd;
    - Brys – yr amserlen ar gyfer ymateb ymaddasu yn seiliedig ar gyfer y gorwel amser ar gyfer unrhyw effaith arwyddocaol, h.y. effeithiau arwyddocaol erbyn y 2020au, 2050au neu'r 2080au;
    - Effaith lliniaru – pwysigrwydd y gweithgaredd i ddylanwad cyffredinol CNC ar allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru;
    - Blaenoriaeth newid hinsawdd yn gyffredinol - y sgôr ymaddasu a lliniaru cyfunol ar gyfer pwysigrwydd mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ar gyfer y gweithgaredd.

    Yn ogystal â'r elfennau uchod a ddefnyddiwyd i gyfrif sgôr cyffredinol ar gyfer blaenoriaeth cam gweithredu newid yn yr hinsawdd ar gyfer pob gweithgaredd, gwerthuswyd 3 elfen arall yn ansoddol (Uchel/Canolig/Isel) i ddarparu gwybodaeth gyd-destunol a ddylai helpu gyda'r broses o ddewis meysydd gwaith blaenoriaeth:
    - Ansicrwydd – asesiad o ansicrwydd ymaddasu a risg effaith a'r asesiad o effaith lliniaru;
    - Ymaddasu cyfredol – i ba raddau mae effeithiau newid yn yr hinsawdd wedi cael eu hystyried eisoes yn y broses gynllunio ac wrth ddarparu'r gweithgaredd;
    - Yr asiantaeth – i ba raddau mae CNC mewn sefyllfa i ymaddasu ar gyfer y gweithgaredd hwn o ran staff, cyllid, cyfle ac amser

11. O ganlyniad i'r dadansoddiad hwn roedd hi'n bosibl dosbarthu 250 o weithgareddau CNC i 3 lefel blaenoriaeth gyffredinol (uchel, canolig, isel). Nodwyd cyfanswm o 24 gweithgaredd fel rhai blaenoriaeth uchel - ym meysydd coedwigaeth, cadwraeth natur, cynhyrchu ynni, cynllunio, morol, rheoli dŵr, rheoli tir a gwaith gwastraff. Mae 76 o weithgareddau wedi'u nodi yn rhai blaenoriaeth ganolig - yn cwmpasu ystod eang o feysydd gwaith yn cynnwys addysg ac ymwybyddiaeth, menter, mordwyo, pysgodfeydd, rheoli cyfleusterau ac amrywiaeth o gyngor mewnol ac allanol a gweithgareddau polisi a datblygu strategaeth. Mae'r 152 gweithgaredd arall wedi'u nodi fel rhai blaenoriaeth isel. Gweithgareddau swyddfa corfforaethol yw'r rhain yn bennaf yn cynnwys llywodraethu corfforaethol, gwasanaethau pobl, gwasanaethau cyfreithiol, rheoli gwybodaeth ac ati. Mae'r categori hefyd yn cynnwys ystod o brosesau fel mynd i'r afael â thrais, gorfodi, cynllunio ac adrodd corfforaethol a busnes, cyfrifydda ariannol a rheoli a rhai elfennau o reoleiddio a thrwyddedu a chaniatadau, nad ydynt yn gofyn am ystyried newid yn yr hinsawdd neu lle mae newid yn yr hinsawdd yn cael sylw o fewn y polisi cyffredinol ond nad oes angen ei ystyried o fewn y gweithgaredd ei hun.
12. O ystyried yr adnoddau cyfyngedig, mae angen nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer ystyriaeth fanwl o safbwynt risgiau ac effeithiau newid yn yr hinsawdd, a'r mesurau a gyflwynir i'w rheoli. Cynigir treialu 5 maes gwaith yn 2015/16 – fel y nodir yn y cynllun busnes. Dewiswyd y pedwar cyntaf o'r pum gweithgaredd arfaethedig yn seiliedig ar eu *blaenoriaeth newid yn yr hinsawdd cyffredinol* uchel, *ymaddasiad cyfredol* isel neu ganolig a'r Asiantaeth canolig neu uchel. Maent hefyd yn cynrychioli gweithgareddau pob un o'r cyrff blaenorol. Y meysydd gwaith blaenoriaeth a awgrymir yw:
    - Datblygu a chynllunio defnydd tir – ystyried goblygiadau newid yn yr hinsawdd o fewn y broses gynllunio, yn cynnwys darparu canllawiau priodol a ffactorau newid i lywio penderfyniadau;
    - Ardaloedd Gwarchodedig - ystyried yr effeithiau ar fywyd gwyllt o fewn gweithgarwch hysbysu a rheoli safleoedd, yn cynnwys safleoedd morol;
    - Cynnal a gweithredu'r Ystad Goedwigoedd - dangos arferion gorau o ran rheoli tir gan ystyried ymaddasu a lliniaru;
    - Trwyddedu Ansawdd Dŵr a/neu Adnoddau Dŵr – nid yw hyn yn ymwneud â'r broses drwyddedu fel y cyfryw ond sicrhau bod newid yn yr hinsawdd yn cael ei ystyried yn llawn mewn perthynas â chanlyniad y trwyddedu;
    - Seilwaith hamdden a mynediad – canolbwyntio ar sut gallai newid yn yr hinsawdd effeithio ar Lwybr Arfordir Cymru a chynnig mesurau ymaddasu gan ystyried y Cynlluniau Rheoli Pridd a gwaith perygl llifogydd arfordirol CNC.

    Dewiswyd y flaenoriaeth olaf hon fel esiampl o weithgaredd sy'n cael ei hystyried yn flaenoriaeth glir er nad yw wedi'i nodi yn un o'r 250 o weithgareddau. Caiff ei hystyried yn flaenoriaeth glir yn sgil effaith stormydd 2013/14 ar gyflawnrwydd y Llwybr a'r costau ychwanegol sylweddol a fuddsoddwyd i'w drwsio, ynghyd â'r ffaith nad yw newid yn yr hinsawdd wedi cael ei ystyried hyd yn hyn. Bydd hi'n bwysig

ystyried effaith gynyddol newid yn yr hinsawdd ar holl seilwaith CNC wrth gyflwyno'r dull ar ôl y treial.

13. Rhan o'r ystyriaeth fanwl hon fydd gwerthuso'r ffordd orau o gael gwahanol feysydd o'r busnes i gymryd rhan yn y broses o ymgorffori risg newid yn yr hinsawdd a pha lefel o ymgysylltu a hwyluso sydd ei hangen gan arbenigwyr newid yn yr hinsawdd er mwyn sicrhau llwyddiant. Byddwn hefyd yn ystyried llunio canllawiau ymaddasu cyffredinol y gellid eu defnyddio mewn meysydd eraill yn CNC.

Prif-ffrydio newid yn yr hinsawdd yn ehangach ledled CNC

14. Ochr yn ochr â'r broses o ymgorffori ystyriaeth i newid yn yr hinsawdd mewn meysydd gwaith unigol drwy weithredu'r canllawiau, mae angen rhaglen brif-ffrydio ehangach ledled y sefydliad o lefel Bwrdd strategol i ddarparu mesurau ymaddasu ar y lefelau gwaith isaf. Mae hyn yn gofyn i ni feddwl am y ffordd rydym yn gwneud ein holl benderfyniadau yng nghyd-destun newid yn yr hinsawdd ond hefyd sut maent yn cysylltu â materion eraill sy'n gofyn am brif-ffrydio fel Rheoli Adnoddau Naturiol Integredig (INRM) a datblygu cynaliadwy. Ar lefel y Bwrdd, mae Andy Middleton yn gweithredu fel hyrwyddwr newid yn yr hinsawdd ac ar lefel y Tîm Gweithredol mae newid yn yr hinsawdd yn cael sylw penodol o fewn rhaglen Da i'r Amgylchedd dan gadeiryddiaeth Graham Hillier ond mae'n bwysig bod y mater yn cael ei ystyried gan bawb ledled y sefydliad. I'r diben hwn, cynigir y camau gweithredu canlynol i ymgorffori ystyriaeth o newid yn yr hinsawdd:

Cynllunio corfforaethol a rhaglenni CNC

- Pob Bwrdd a Chadeirydd Rhaglen 'Da' i adolygu sut yr ystyriant newid yn yr hinsawdd yn eu rhaglen;
- Strategaethau a Pholisïau CNC i fynd i'r afael ag egwyddorion lliniaru ac ymddasu i newid yn yr hinsawdd o'r cychwyn e.e. Strategaeth Llety;
- Ystyried lliniaru ac ymddasu i newid yn yr hinsawdd o fewn y dull Rheoli Adnoddau Naturiol Integredig yn benodol, yn cynnwys o fewn y treialon;
- Ystyriaeth strategol i gyflawni amcanion newid yn yr hinsawdd drwy ein rhaglen ariannu Partneriaeth, gweithio gyda'n partneriaid ar risgiau newid yn yr hinsawdd a rennir;

Codi ymwybyddiaeth y staff o ymagwedd CNC at newid yn yr hinsawdd

- Datblygu deunydd hyfforddi/cyflwyniadau ar gyfer cyflwyno ledled y sefydliad i godi ymwybyddiaeth o'r wyddor newid yn yr hinsawdd ddiweddaraf a'r ffordd mae CNC yn ymgorffori ystyriaeth o risg newid yn yr hinsawdd;
- Sefydlu tîm newid yn yr hinsawdd rhithwir gydag aelodau o bob cwr o CNC i helpu'r broses o werthuso risgiau a phennu meysydd blaenoriaeth y dyfodol;
- Datblygu deunydd astudiaeth achos yn seiliedig ar weithgareddau blaenoriaeth i arddangos dull o weithredu canllawiau Llywodraeth Cymru i lywio gweithredu pellach yn fewnol ac i rannu gyda Llywodraeth Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac eraill.

15. Tra bod y papur hwn yn canolbwyntio'n benodol ar integreiddio newid yn yr hinsawdd yng ngwaith CNC, mae'n bwysig cydnabod y rhyngberthynas rhwng

Datblygu Cynaliadwy, Rheoli Adnoddau Naturiol a Newid yn yr Hinsawdd. Nododd y rhai a gyfrannodd at sgwrs *Y Gymru a Garem* newid yn yr hinsawdd fel y mater unigol mwyaf allweddol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnwys cyfeiriad penodol at liniaru ac ymaddasu i newid yn yr hinsawdd o fewn ei nodau (fel y'i diwygiwyd) – gan gydnabod bod mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn gam sylweddol tuag at ddatblygu cynaliadwy. Bydd hi'n bwysig ystyried bod newid yn yr hinsawdd yn cael ei integreiddio'n llawn i waith y Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus ac wrth lunio Cynllunio Llesiant Lleol. Bydd integreiddio materion a mesurau ymaddasu a lliniaru newid yn yr hinsawdd yn y broses Rheoli Adnoddau Naturiol yn darparu llwybr pwysig arall i integreiddio newid yn yr hinsawdd. Mae angen rhoi rhagor o ystyriaeth i systemau adrodd integredig sy'n cwmpasu'r themâu allweddol hyn.

Y Camau Nesaf

Y blaenoriaethau a gynigir yn syth yw:

- Dewis cynrychiolwyr o bob cwr o CNC i ffurfio tîm newid yn yr hinsawdd rhithwir i drafod gyda LT
- Sefydlu rhaglen bwrdd ar gyfer newid yn yr hinsawdd i lywio a chydgysylltu gwaith arfaethedig, a gweithgarwch arall a nodwyd fel rhan o'r broses ymgorffori;
- Nodi/recriwtio cydgysylltydd prosiect pwrpasol ar gyfer darparu proses canllawiau Llywodraeth ledled CNC er mwyn sicrhau nad yw'r gwaith blaenoriaeth cyffredinol hwn yn cael ei wthio i'r neilltu oherwydd blaenoriaethau eraill;
- Trafod y broses briodol ar gyfer ymgorffori a'r cwmpas gwaith ar gyfer 15/16 gyda LT a staff perthnasol sy'n rhan o'r meysydd gwaith penodol – gan ddiwygio gweithgareddau blaenoriaeth os oes angen;
- Cynnal ymarfer gyda Chadeiryddion Rhaglenni 'Da' i ystyried cyfleoedd pellach i brif-ffrydio newid yn yr hinsawdd ledled y rhaglenni mewn cydweithrediad â thîm gweithredu a gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd yn Llywodraeth Cymru.

Risgiau

Bydd methu cynnal y gwaith arfaethedig yn arwain at sefyllfa o fod yn agored yn barhaus i'r risg gynyddol o effeithiau newid yn yr hinsawdd gan atal gallu CNC i gyflawni rhai agweddau ar ei gylch gwaith o bosibl. Mae'r prif risgiau sy'n gysylltiedig â'r gwaith arfaethedig yn gysylltiedig â diffyg gallu neu barodrwydd i gymryd rhan yn y broses, neu i gynnal yr opsiynau ymaddasu a nodwyd. Gellir lliniaru'r risgiau hyn drwy sicrhau bod swyddogion lefel uwch yn cymryd rhan yn y broses ar lefel Bwrdd, Tîm Gweithredol ac LT, gyda staff yn cael eu neilltuo i fod yn gyfrifol am y pwnc o fewn meysydd eraill y busnes.

Goblygiadau Ariannol

Mae costau ariannol y broses wedi'u cyfyngu i amser staff yn bennaf ynghyd â chostau unrhyw gamau ymaddasu dethol y bydd yn rhaid eu gweithredu. Bydd yr adnoddau staff sydd eu hangen i gyflawni'r gwaith yn cael eu hasesu fel rhan o'r treial. Dim ond fel rhan o'r broses weithredu y gellir gwerthuso ac adolygu costau camau gweithredu ac maent yn debygol o amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar faes gweithgaredd CNC. O ran capasiti staff, er bod gan rai staff newid yn yr hinsawdd rywfaint o gapasiti i allu prif-ffrydio camau gweithredu newid yn yr hinsawdd, cydnabyddir y bydd y rhaglen waith i ymgorffori canllawiau ymaddasu Llywodraeth Cymru yn gofyn am unigolyn pwrpasol i gydgysylltu'r gwaith mewn cydweithrediad â rheolwyr a staff yn y meysydd busnes a ddewiswyd. Eu prif waith fydd cydgysylltu'r broses a sicrhau bod pob maes busnes yn cyfrannu at weithredu'r dull.

Cyfathrebu

Mae amrywiaeth o faterion yn rhoi pwysau cynyddol ar ein hadnoddau amgylcheddol a naturiol. Un o'r rhain yw newid yn yr hinsawdd. Dyma pam mae ein safbwynt ar newid yn yr hinsawdd yn elfen mor bwysig o strategaeth gyfathrebu CNC yn fewnol ac allanol.

Mae gan lawer o'r camau gweithredu a nodwyd yn y papur hwn ffocws mewnol, yn seiliedig ar godi ymwybyddiaeth y staff am y rhaglen waith ac felly byddwn yn cynllunio rhywfaint o waith cyfathrebu mewnol am y gwaith arfaethedig a'n cynnydd dros amser. Nid ydym yn rhagweld y byddwn yn llunio cynllun cyfathrebu allanol penodol, ond y byddwn yn ymgorffori cyfathrebu mewn meysydd gwaith ehangach eraill.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA)

Amherthnasol. Er, efallai y bydd camau gweithredu manwl yn datblygu a allai ofyn am gynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb i sicrhau bod camau lliniaru neu ymaddasu yn deg ac yn gyfartal i bawb.